CASCADE

ar ôl y brifysgol

BETH SY'N DOD NESAF?

Felly, llwyddoch chi i orffen eich gradd! Ar wahân i ddathliad haeddiannol, beth sy'n dod nesaf? Os ydych chi'n dal i fod o dan 25 oed, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cael gwybod pa gymorth y gall eich Awdurdod Lleol ei roi i chi ar ôl i chi adael addysg amser llawn. Mae hyn yn amrywio, felly fydd pethau ddim yr un peth ym mhobman. O ran y camau nesaf...

Graddio

Nid pawb sy'n mynd i'w seremonïau graddio, ac efallai na fyddwch chi eisiau mynd. Ond os ydych chi eisiau mynd, peidiwch â gadael i'r gost eich rhwystro. Siaradwch â'ch cyswllt dynodedig yn y brifysgol a gofynnwch a oes cyllid ar gael i dalu am logi eich gwisg graddio, neu unrhyw gostau eraill a allai godi (fel costau teithio os nad ydych yn byw'n lleol erbyn hyn). Gall y graddio fod yn gyfle gwych i ddathlu gyda ffrindiau a gwahodd y rhai sy'n agos atoch i ddod i gael blas o'r hyn rydych chi wedi bod yn ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf.

Swyddi

Efallai i chi sôn yn barod am swyddi, gyrfaoedd a CV gyda'ch tîm cymorth myfyrwyr. Os nad ydych chi, peidiwch â phoeni! Bydd y rhan fwyaf o brifysgolion yn gadael i chi gael mynediad i chi at y gwasanaethau hyn am gyfnod o amser ar ôl i chi raddio. Gallan nhw eich helpu chi i drafod eich opsiynau a defnyddio eich holl brofiadau er mantais i chi wrth ysgrifennu ceisiadau am swyddi.

Astudiaethau pellach

Efallai eich bod chi'n dwlu ar fod yn fyfyriwr! Gall astudiaethau pellach eich helpu i ddatblygu eich diddordebau a chael y cymwysterau sydd eu hangen arnoch ar gyfer y swydd rydych ei heisiau. Os ydych chi o dan 25 oed, gall aros mewn addysg amser llawn hefyd olygu eich bod chi'n parhau i fod yn gymwys i gael rhywfaint o'r cymorth a gawsoch chi ar lefel israddedig i fyfyrwyr sydd â phrofiad o ofal. Dydy hynny ddim o reidrwydd yn rheswm **ar** ei ben ei hun, ond yn bendant gall fod yn gysur gwybod bod aros ymlaen yn y brifysgol yn gallu rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd a sicrwydd i chi am flwyddyn neu ddwy arall wrth i chi weithio allan i ble mae'ch bywyd wedi'i anelu.